Nodiadau'r Athro

Roedd CALCH yn broject partneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Amgueddfa Cymru a Chanolfan y Mynydd Du ym Mrynaman. Mae'r project wedi gwella mynediad i'r cyhoedd i olion y diwydiant yn Chwareli'r Mynydd Du yn Sir Gâr trwy drwsio rhai o'r olion diwydiannol. Mae hefyd wedi creu taith hunandywys o gwmpas y safle, byrddau dehongli a llwybr clywedol.

Mae'r project hefyd wedi cynhyrchu'r adnodd addysgol hwn. Yn ystod y project CALCH, ymwelodd cannoedd o blant cynradd ac uwchradd â'r safle diddorol hwn a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y dosbarth a oedd yn gysylltiedig â'u hymweliad. Gobeithir y bydd yr adnodd addysgol hwn yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i hybu a galluogi plant ysgol i ddarganfod arwyddocâd hanesyddol y safle a'i botensial addysgol yn gyffredinol.

Mae'r adnoddau wedi cael eu datblygu gan athro cymwysedig ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, ac yn cynnwys cymaint o gysylltiadau â'r cwricwlwm â phosibl. Fodd bynnag, efallai y bydd angen addasu rhai o'r adnoddau i weddu i anghenion a grŵp oedran eich dosbarth.

Cyn addysgu unrhyw uned, fe'ch cynghorir i fynd i www.calch.org.uk er mwyn dod yn gyfarwydd â'r chwareli.

Ymweld â'r safle.

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys taflen canllawiau a llyfryn ar hanes diwydiant calch y Mynydd Du, sy'n cynnwys map o'r safle ar gyfer ymweliadau gan ddosbarthiadau. Gellir lawrlwytho llwybr clywedol difyr hefyd. Mae gwybodaeth ar gyfer gwneud asesiadau risg cyn eich ymweliad yn cael ei darparu yn ogystal.

Diolch i chi am neilltuo amser i lawrlwytho'r adnoddau. Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau, cysylltwch â ni. Anfonwch ebost at s.rees@dyfedarchaeology.org.uk.